Uned 7.2 Gwybodaeth a Chyflwyniad

Ynglŷn â'r Uned:

Yn yr uned hon mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o fecanweithiau chwilio i archwilio potensial ffynonellau gwybodaeth a seilir ar TGCh. Maen nhw'n ymchwilio i bwnc ac yn paratoi cyflwyniad ar gyfer cynulleidfa arbennig. Maen nhw'n defnyddio gwefannau a CD-ROM fel eu prif ffynonellau gwybodaeth.

Maen nhw'n archwilio ystod o fathau arbennig o wybodaeth, fel ystadegau, deddfwriaeth ac ymgyrchoedd hysbysebu, ac yn pwyso a mesur diben y wybodaeth a barn y sefydliad a'i chynhyrchodd.

Rhoddir fframwaith i ddisgyblion ar gyfer eu hymchwil. Maen nhw'n anelu at ateb cwestiynau penodol ac yn mireinio ac yn trefnu eu gwybodaeth yn ôl yr angen. Dewisir testun y cyflwyniad gan yr athro/athrawes. Gellir cyflwyno unrhyw bwnc a all fod yn ddadleuol, ond dylai fod yn bwnc sy'n caniatáu barn a dehongliadau gwahanol. Y Cwricwlwm Cymreig: Gellid defnyddio gwefan Bwrdd Croeso Cymru fel ffynhonnell wybodaeth.

Ble mae'r uned hon yn ffitio:

Mae'r uned hon yn adeiladu ar uned 1 'Defnyddio TGCh' a chynllun gwaith Cyfnod Allweddol 2, yn enwedig uned 4A 'Defnyddio Prosesydd Geiriau i drefnu, ad-drefnu a datblygu syniadau, Uned 6F 'Uned 6D': 'Defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio cronfeydd data ac i ddehongli gwybodaeth.' Uned 5C 'Gwerthuso gwybodaeth, gwirio cywirdeb a chwestiynu hygrededd ac Uned 6E 'Defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio cronfeydd data mawr a dehongli gwybodaeth,' gyda rhai cysylltiadau i 6A 'Cyflwyniad Amlgyfrwng.'

Mae'r uned hon yn darparu sylfaen i ddysgyblion gynyddu eu defnydd o'r rhyngrwyd.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg

Disgwyliadau

Ar ddiwedd yr uned hon

bydd mwyafrif y disgyblion: yn defnyddio TGCh i chwilio sawl ffynhonnell i ddod o hyd i wybodaeth at ddibenion penodol i ddewis gwybodaeth briodol, ei gwirio am gywirdeb a thuedd; yn defnyddio TGCh i strwythuro, mireinio a chyfathrebu gwybodaeth; cynhyrchu cyflwyniad gan ddefnyddio mwy nag un fformat, sy'n dangos eu bod yn ymwybodol o anghenion eu cynulleidfa

ni fydd rhai disgyblion wedi gwneud cymaint o gynnydd a byddant: yn deall yr angen i ffurfio cwestiynau yn ofalus wrth ddewis gwybodaeth; yn defnyddio ystod o strategaethau i ddewis gwybodaeth sy'n berthnasol i'w dibenion ac enwi'r ffynhonnell/awdur; yn defnyddio TGCh i gyflwyno, strwythuro a chyfathrebu gwybodaeth gan ddangos ymwybyddiaeth o'r gynulleidfa, *e.e. cynhyrchu cyflwyniad lle mae pwyntiau allweddol o wybodaeth wedi'u trosglwyddo o waith ymchwil.*

bydd rhai disgyblion wedi gwneud mwy o gynnydd a byddant: yn datblygu ac yn mireinio gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, *(e.e. yn defnyddio strategaethau chwilio cymhleth wrth ddefnyddio ystod o ffynonellau CD-ROM/Rhyngrwyd i ddod o hyd i wybodaeth o safbwyntiau gwahanol a dewis y deunydd yn ofalus ac yn feirniadol, gan enwi'r ffynhonnell ac unrhyw duedd neu bersbectif penodol);* cyflwyno eu syniadau mewn amrywiaeth o ffyrdd ac arddangos ymdeimlad clir o gynulleidfa, (e.e. ail-weithio gwybodaeth a gasglwyd i gynhyrchu cyflwyniad personol lle mae'r wybodaeth yn dangos ymwybyddiaeth o'r gynulleidfa a dewis effeithiol o adnoddau i drosglwyddo'r wybodaeth).

Geirfa

Trwy'r gweithgareddau yn yr uned hon bydd disgyblion yn gallu deall, defnyddio a sillafu'r geiriau canlynol yn gywir; mynegai, gair allweddol, tuedd, pecyn cyflwyno, sleid, sioe sleidiau a thrawsnewid, animeiddiad. Darllen – gallai'r disgyblion wneud y canlynol wrth gyflawni'r gweithgareddau: gwneud cysylltiadau rhwng y ffyrdd gwahanol o gyflwyno gwybodaeth, defnyddio sgimio, sganio, amlygu a gwneud nodiadau yn ôl yr angen ar gyfer testunau gwahanol, yn dod o hyd i wybodaeth o ddeunyddiau mewn ffurfiau gwahanol gan ddenyddio tudalennau cynnwys, mynegeion, rhestrau termau, geiriau allweddol a chysylltiadau cyflym, dilyn dilyniant o weithrediadau, prosesau neu syniadau sy'n cael eu disgrifio.

Adnoddau

Mynediad i'r rhyngrwyd

- amrywiaeth o wefannau, sydd wedi'u dethol a'u marcio'n flaenorol, a CD-ROM (y gellir copio testun a delweddau ohono) gyda'r wybodaeth briodol
- meddalwedd prosesu geiriau
- pecyn cyflwyno sy'n cynnwys templedau sydd wedi'u paratoi er mwyn i ddisgyblion allu cyfuno eu gwybodaeth yn gyflym ac yn effeithiol

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Gweithgaredd 1			
• bod gwybodaeth yn gallu cael ystod o ffynonellau sy'n gallu cynrychioli safbwyntiau gwahanol ac sy'n gallu bod yn anghywir â thuedd • gweld cysylltiadau ynghylch sut mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffurfiau gwahanol	• Trafodwch ddiben yr ymarfer a'r pwnc a ddewiswyd, *e.e. datblygu cyflwyniad i esbonio wrth rieni pam mae'r testun a ddewiswyd mor bwysig*. Ystyriwch pa fath o wybodaeth a chywair fyddai'n briodol. • Gofynnwch i'r dosbarth ystyried yr ystod o wybodaeth ar ffynonellau TGCh a allai fod ar gael, e.e. *gwefannau ar y rhyngrwyd, CD-ROM, cyfnewid gwybodaeth gyda phobl eraill drwy e-bost.* Trafodwch ddibenion y ffynonellau hyn (*e.e. pwy allai roi'r wybodaeth ar y rhyngrwyd neu'r CD-ROM),* a sut gallai ffynonellau gynnwys barn wahanol ar y pwnc, *e.e. gwahaniaeth rhwng barn y llywodraeth, diwydiant neu grŵp amgylcheddol*. • Trafodwch fanteision ac anfanteision cyfleusterau chwilio gwahanol, lluniwch restr gyda'r disgyblion a nodi'r ffactorau a allai wneud rhai ffynonellau'n llai defnyddiol nag eraill. • Gofynnwch i ddisgyblion gymryd nodiadau ar y math o wybodaeth y gallai pob ffynhonnell ei darparu, e.*e. testun, graffeg, fideo,* ac ystyriwch gyfyngiadau pob un ohonynt ar gyfer yr adroddiad. • Gan ddefnyddio safleoedd sydd eisoes wedi'u clustnodi, dangoswch sut gellir tynnu gwybodaeth angenrheidiol a chadw graffeg a thestun yn hytrach nag argraffu'r tudalennau cyfan. Sicrhewch fod y disgyblion yn gwybod ble dylent cadw ffeiliau er mwyn iddynt allu eu defnyddio i weithio arnynt nes ymlaen.	• nodi o leiaf dwy ffynhonnell briodol sydd hefyd yn wahanol ynghyd â'r materion sy'n gysylltiedig â phob ffynhonnell • sylweddoli'r angen i ddilysu ffynonellau o wybodaeth	• Mae'r gweithgareddau yn yr uned hon yn fodd i ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a'i chyflwyno mewn modd effeithiol ar gyfer cynulleidfa benodol. Mae'r ymagwedd yn darparu nifer o gyfleoedd am wahaniaethu ar bob cam sy'n cynnwys: – nifer ac ystod y cyfleusterau chwilio a ymchwiliwyd – lefel y manylion o ran asesu'r ffynhonnell – technegau ar gyfer dadansoddi'r testun a ddarganfuwyd – cynnwys, deunydd a dyluniad y cyflwyniad • Efallai bydd angen fframwaith ar ddisgyblion i'w helpu i gymharu manteision ac anfanteision. • Gallai gwaith cartref gynnwys holiadur ar farn y disgyblion a'u teulu am y pwnc dan sylw.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Gweithgaredd 2			
• defnyddio dulliau gwahanol i chwilio o fewn ffynonhellau • dod o hyd i wybodaeth gan ddefnyddio cynnwys, mynegeion a geiriau allweddol a defnyddio'r canlyniadau i addasu strategaeth chwilio	• Esboniwch y mathau gwahanol o fecanweithiau chwilio a ddarperir ar CD-ROM ac o fewn safleoedd rhyngrwyd*, e.e. strwythur hierarchaidd cyfarpar chwilio, 'mapiau' safle neu gynnwys, chwiliadau geiriau allweddol, mynegeion, testun-rhydd a chwiliadau Boole.* Gofynnwch i'r disgyblion ddiffinio'r cwestiynau y byddent yn hoffi cael atebion iddynt drwy eu hymchwil. • Gofynnwch i'r disgyblion ymchwilio i'r ffynonellau a ddewiswyd ganddynt a defnyddio'r cyfleusterau gwahanol i ddod o hyd i wybodaeth addas i ateb eu cwestiynau • Pan fydd y disgyblion wrthi yn chwilio eu ffynonellau, trafodwch yr ymagwedd y maen nhw wedi'i mabwysiadu i fireinio chwiliadau testun-rhydd a sut gallant ddefnyddio geiriau gwahanol i ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol. Gofynnwch iddynt barhau i chwilio am ddeunydd o'r ffynonellau a ddewiswyd ar gyfer eu prosiect, gan gadw darnau defnyddiol o destun a graffeg.	• defnyddio ystod o fecanweithiau chwilio sy'n gysylltiedig â'r ffynonellau a nodi rhai o fanteision ac anfanteision y cyfleusterau • defnyddio A/AC neu NEU wrth gyflawni chwiliad Boole • addasu chwiliadau ar gyfer gwirio perthnasedd y deunydd a ganfuwyd	• Mae dewis adnoddau'n bwysig i sicrhau bod ystod addas o gyfleusterau chwilio ar gael i'w hymchwilio. Ar hyn o bryd, dylid cyfyngu ar ffynonellau ar y we i safleoedd a ddewiswyd yn flaenorol. • Bydd angen i ddisgyblion gwestiynu beth byddant yn ei ddarganfod yn ofalus, cyn iddynt wneud unrhyw dybiaeth ynghylch llwyddiant eu hymchwiliad. • Bydd angen cefnogaeth ar rai disyblion wrth ddefnyddio offer chwilio Boole. • Gallai gwaith cartref gynnwys ymchwiliad o'r dulliau eraill o chwilio deunyddiau sydd ar gael yn y cartref neu lyfrgell. • Gellir ymestyn y gweithgaredd hwn i gynnwys peiriannau chwilio i ddod o hyd i ffynonellau eraill o wybodaeth. Mae Uned 10 'Gwybodaeth: dibynadwyedd, dilysrwydd a thuedd' yn mynd i'r afael â'r technegau hyn yn fwy manwl.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg

Gweithgredd 3			
• bod gwybodaeth yn gallu cynnwys safbwyntiau sy'n ddi-fudd ac sydd â thuedd • sgimio a hidlo gwybodaeth a nodi unrhyw duedd a phersbectif • nodi gwybodaeth werthfawr a threfnu a mireinio syniadau gan ddefnyddio meddalwedd prosesu geiriau	• Esboniwch wrth ddisgyblion sut i weld cysylltiadau rhwng ffurfiau gwahanol o wybodaeth. Dangoswch y defnydd o sgimio, sganio, amlygu a gwneud nodiadau fel dulliau sy'n briodol i destunau gwahanol. • Gofynnwch i ddisgyblion nodi ffynhonnell eu gwybodaeth, p'un ag yw yn berthnasol neu beidio a ph'un ag yw yn atgyfnerthu'r cyflwyniad y maen nhw'n ei ddatblygu neu beidio, ynghyd ag unrhyw ddata penodol ar destun. Unwaith mae'r disgyblion wedi cael amser i gwblhau nifer o chwiliadau, gellir tynnu'r wybodaeth sydd wedi'i chasglu at ei gilydd a gallant nodi'r safbwyntiau a'r ystadegau gwahanol. Gofynnwch iddynt drafod rhai o'r rhesymau am y gwahaniaethau*, e.e. anghywirdebau, dulliau gwahanol o gyfrif, tuedd* • Unwaith mae disgyblion wedi dod o hyd i ac wedi copïo darn o destun a fydd o ddefnydd yn eu barn hwy, trafodwch y neges allweddol i'w chyflwyno. Dangoswch sut i chwilio am air allweddol mewn prosesydd geiriau, a sut i amlygu ymadroddion neu wybodaeth allweddol a chopïo a gludo/symud deunydd i drefn a fydd o gymorth ar gyfer y cyflwyniad. Wedyn gall y disgyblion barhau i ymchwilio eu deunydd eu hunain.	• sgimio drwy wybodaeth i wirio pa mor berthnasol ydyw • sylweddoli bod deunydd a gedwir ar systemau TGCh yn dod o amrywiaeth o ffynonellau a dylent nodi'r awdur/awdures wreiddiol a gwerthuso dilysrwydd y deunydd • bod yn feirniadol o'r wybodaeth a ddewiswyd a defnyddio technegau i chwilio, canfod a threfnu deunydd priodol • deall a dehongli'r berthynas rhwng lluniau, print, etc • defnyddio nodweddion trefnu i ddod o hyd i destunau a gwybodaeth	• dylid dangos i ddisgyblion sut i chwilio am fanylion o'r awdur a'u hannog i drafod sut gallent nodi tuedd. • gellir llunio pro forma i gofnodi gwybodaeth bwysig am y ffynhonnell a ddefnyddiwyd. • dylid annog disgyblion i ddadansoddi gwybodaeth o ffynonellau TGCh i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei thynnu ar gyfer y dasg • gall fframwaith o gwestiynau ddarparu strwythur i helpu disgyblion i chwilio am a chasglu gwybodaeth. • gallai gwaith cartref fynd i'r afael ag asesiad mwy ffurfiol o'r hyn y mae disgyblion wedi dod o hyd iddo a chynllunio cychwynnol ar gyfer eu cyflwyniad.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Gweithgaredd 4			
• datblygu cyflwyniad ar gyfer cynulleidfa benodedig • defnyddio nodweddion pecyn cyflwyno i gyfuno testun, delweddau a deunyddiau eraill yn effeithiol	• Trafodwch y gynulliedfa â'r dosbarth yn ogystal â faint o amser a lle y bydd gan y disgyblion ar gyfer pob cyflwyniad, e.e. *mae'n rhaid i'r cyflwyniad esbonio pa fath o rôl fyddai gan y rhieni ynghylch y pwnc a ddewiswyd* • Gofynnwch i'r dosbarth *s*ut gallent gyflwyno eu gwybodaeth, y rheswm dros gyflwyo eu gwybodaeth i'r gynulleidfa a thrafodwch y negesuon allweddol. Dangoswch a thrafodwch y materion sydd wrth wraidd cynhyrchu cyflwyniadau effeithiol, *e.e. defnyddio delweddau fel neges a gwella testun, pwysigrwydd gosodiad clir, y defnydd o arddulliau a meintiau ffont, gwirio sillafu.*	• paratoi cyflwyniad i annerch y gynulleidfa benodol a chanolbwyntio ar ddiben y cyflwyniad • defnyddio delweddau, clip art a graffeg i wella neges neu ei wneud yn fwy effeithiol na thestun • defnyddio nodweddion pecyn cyflwyno i gynhyrchu cyflwyniad effeithiol	• efallai bydd angen cyngor ar rai disgyblion ynghylch sut i ganolbwyntio ar eu gweithgaredd, *e.e.gwnewch un pwynt ar sleid*. • gellir annog disgyblion i adolygu'u cyflwyniad yn rheolaidd. • gellir annog plant mwy galluog i feddwl yn fwy gofalus am y dewis o ddyluniad a chynllunio y cyflwyniad. • dylid annog disgyblion i feddwl am benderfyniadau o ran defnyddio nodweddion animeiddio pecynnau cyflwyno *e.e. eu defnyddio am reswm penodol*.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg